# Amcangyfrif Blynyddol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

# 2017-18

**Cyflwynwyd i Weinidogion Cymru yn unol â pharagraff 19 o Atodlen 2 i'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

# 1. Cefndir

1.1. Mae'r amcangyfrif hwn ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017-18 yn cael ei gyflwyno yn unol â pharagraff 19 o atodlen 2 i'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau (Darpariaethau Canlyniadol) 2015 Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru archwilio'r amcangyfrif hwn a'i osod o flaen y Cynulliad Cenedlaethol ynghyd ag unrhyw addasiadau sy'n briodol yn eu barn.

1.2. Mae'r amcangyfrif wedi ei baratoi ar sail adnoddau ac mae'n cwmpasu refeniw a gwariant cyfalaf a ragwelir yn cynnwys eitemau heb fod am arian parod. Mae hefyd yn cynnwys cysoniad â'r gofyniad net am arian parod neu gymorth grant yr wyf yn disgwyl ei dderbyn oddi wrth Weinidogion Cymru.

1.3. Fy mwriad yw gwneud egwyddorion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhan annatod o fy nhrefniadau gwaith ac mae'r amcangyfrif hwn wedi ei lunio gan gadw hyn mewn golwg. Felly, mae'r amcangyfrif yn dangos bod rhannu swyddogaethau gyda chyrff cyhoeddus eraill a gwneud y defnydd gorau o dechnoleg a sicrhau cynaliadwyedd ym mhob dim er mwyn cadw costau'n isel a chynhyrchiad yn uchel yn elfennau pwysig iawn yn fy nghyllideb.

# 2. Cyd-destun

2.1. Cychwynnais fy swydd ar 1 Chwefror 2016 ac o 1 Ebrill 2016 deuthum yn gyfrifol am gwrdd â chostau'r rhan fwyaf o fy nhreuliau yn cynnwys costau staff, p'un ai'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol neu wedi eu secondio o sefydliadau eraill (yn cynnwys Llywodraeth Cymru). Ysgwyddodd Llywodraeth Cymru'r cyfrifoldeb am drefnu'r swyddfa a'r cyfarpar yn Siambrau'r Farchnad, Heol y Santes Fair, Caerdydd a byddaf yn symud i'r fan honno yn hwyrach yn 2016-17.

2.2. Bydd sefydlu fy swyddfa a phenodi staff i'r swyddi y cytunwyd arnynt rhyngof a Llywodraeth Cymru (fel sy'n ofynnol ym mharagraff 9(5) o atodlen 2 i'r Ddeddf 2015) yn parhau i mewn i 2017-18. Byddaf yn adeiladu ar yr ymagwedd gydweithredol a

gychwynnais yn 2016: hyd yn hyn rwyf wedi sicrhau swydd polisi ar y cyd â'r Comisiynydd Plant; secondiadau o Lywodraeth Cymru, Renewables UK a Heddlu De Cymru; ac rwyf yn cynnal trafodaethau gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr ynglŷn â threfniadau cydweithio yn 2017-18. Gobeithiaf hefyd ennyn ymgyfraniad grwpiau difreintiedig o fewn fy ngweithlu drwy ddarparu prentisiaethau i bob oed

2.3. Byddaf yn rhannu swyddfeydd gyda Chomisiynydd y Gymraeg ac yn defnyddio'r gofod a drefnwyd (yn garedig iawn) i fod ar gael i mi o fewn Prifysgol Bangor ar gyfer fy staff sy'n gweithio yng ngogledd Cymru. Byddaf yn parhau i rannu fy swyddogaeth AD gyda'r Comisiynydd Plant, fy swyddogaeth cyflogres gyda'r Ombwdsmon ac rwyf wedi sicrhau trefniadau archwilio mewnol ar y cyd â'r Comisiynydd Pobl Hŷn, y Comisiynydd Plant, ac Ombwdsmon Sector Cyhoeddus Cymru.

2.4. Yn ystod Gwanwyn a Haf 2016 ymwelais â 43 o'r 44 Corff Cyhoeddus gan gwrdd â sefydliadau a phobl hyd a lled Cymru i lywio fy mlaenoriaethau strategol, i hybu'r egwyddor datblygu cynaliadwy, codi ymwybyddiaeth o'r Ddeddf a fy rôl fel Gwarcheidwad Cenedlaethau'r Dyfodol. Rwyf yn awr yn profi'r sylfaen dystiolaeth hon gydag arbenigwyr ac academyddion ac yn gobeithio cyhoeddi fy nghynllun gwaith ym mis Chwefror 2017 a'i weithredu o Ebrill ymlaen. Bydd y cynllun hwn yn llywio fy amcangyfrifon ar gyfer blynyddoedd ariannol y dyfodol.

2.5. Yn y cyfamser, y symiau a ddyfynnwyd yn y ddogfen hon yw fy amcangyfrif gorau o fy nghostau ar gyfer blwyddyn ariannol 2017-18.

# 3. Cyllid Llywodraeth Cymru

3.1. Mae cyllideb Llywodraeth Cymru ei hunan ar gyfer 2017-18 yn darparu cyllid o £1.46m ar gyfer gwaith fy swyddfa. Mae fy amcangyfrif yn cyd-fynd â'r cyfanswm hwn.

# 4. Cyfrifon

4.1. Mae'n ofynnol i mi baratoi cyfrifon blynyddol ar gyfer eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Bydd fy nghyfrifon cyntaf yn cwmpasu'r cyfnod o gychwyn fy swydd i fyny at 31 Mawrth 2017.

# 5. Archwiliad a materion llywodraethu

5.1. Yn unol ag arfer gorau, rwyf wrthi ar hyn o bryd yn penodi Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Ansawdd i ddarparu sicrwydd i mi fel Swyddog Cyfrifyddu ar faterion sy'n ymwneud ag archwilio, rheolaeth ariannol, rheoli risg a llywodraethu. Cynhelir y cyfarfod cyntaf ym mis Rhagfyr 2016. Rwyf hefyd wedi penodi archwilwyr mewnol y caiff eu gwaith ei arolygu gan y pwyllgor hwnnw.

# 6. Amcangyfrif Blynyddol 2017-18

6.1 Isod nodir Amcangyfrif 2017-18 ar gyfer Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

| **Disgrifiad** | **Amcangyfrif 2017-18 £000** |
|---|---:|
| Costau cyflogau | 1,101 |
| Llety | 97 |
| Costau swyddfa | 50 |
| Hyfforddi a Recriwtio | 23 |
| Teithio a threuliau | 40 |
| Archwiliad mewnol ac allanol | 30 |
| Cyfathrebu | 15 |
| TG (Refeniw) | 33 |
| Costau Prosiectau | 39 |
| Arian wrth gefn | 30 |
| **Cyfanswm Gwariant Refeniw** | **1458** |
| Llai costau arian parod | (3) |
| Ynghyd â gwariant cyfalaf (TG) | 5 |
| **Gofyniad net am arian parod** | **1460** |

**Nodiadau:**

## Costau Cyflogau

Mae'r costau hyn yn cwmpasu'r gost lawn o gyflogi neu secondio staff yn cynnwys costau Yswiriant Gwladol a chostau pensiwn y cyflogydd. Mae hefyd yn cynnwys costau fy nghyflog i fy hunan (fel a bennir gan Weinidogion Cymru) a chostau tâl y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg. Mae fy strwythur staffio cychwynnol wedi ei gymeradwyo gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol ar ran Gweinidogion Cymru.

### Treuliau llety a swyddfa

Mae treuliau llety a swyddfa'n cynnwys gwariant ar rent, trethi, diogelwch, cyfleustodau, deunydd ysgrifennu ac yswiriant,

### Costau TG (refeniw a chyfalaf )

Rhoddwyd ar waith gaffaeliad y seilwaith TG gan Lywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod sefydlu. Cafodd y rhan fwyaf o'r gwariant cyfalaf ei brynu gan Lywodraeth Cymru ar fy rhan. Bydd rhywfaint o gostau seilwaith yn gysylltiedig â symud i Siambrau'r Farchnad, ond ar wahân i hyn ni fydd llawer o wariant cyfalaf.

Mae'r costau refeniw parhaus sy'n gysylltiedig â'r TG yn gostau gwasanaeth a chefnogaeth misol i alluogi gwasanaeth data diogel i'r holl staff sy'n ei ddefnyddio.

### Cyfathrebu

Mae'r rhan fwyaf o'r costau arfaethedig sy'n ymwneud â chyfathrebu'n gysylltiedig â marchnata a brandio'r sefydliad, a fydd yn cynnwys digwyddiadau a gweithdai. Disgwylir rhywfaint o gostau cyfieithu ynghyd â gwe-lety a chostau cynnal a chadw'r wefan - ond fy mwriad yw defnyddio sgiliau mewnol i wneud hyn, gan gadw'r costau am hyn mor isel â phosibl.

### Costau Prosiectau

Amcangyfrif cychwynnol yw hwn o'r costau uniongyrchol sy'n gysylltiedig â'r rhaglenni gwaith sydd gennyf ar y gweill yn cynnwys er enghraifft, ymchwil a datblygu a thaliadau i sefydliadau eraill. Bydd y rhaglenni hyn yn cael eu datblygu ymhellach fel rhan o fy mhroses gynllunio strategol.

### Arian Wrth Gefn

Mae swm o £30,000 wrth gefn wedi ei gynnwys yn yr amcangyfrif ar gyfer dibenion gweithredol cyffredinol ac ar gyfer gwaith nas cynlluniwyd. Gallai'r fath gostau ychwanegol fod yn gysylltiedig, er

enghraifft, ag achosion cyfreithiol, adnoddau staff ychwanegol dros dro a sicrhau cyngor a chymorth ar gyfer digwyddiadau na ellid bod wedi eu rhagweld.

### Symudiad heb fod yn arian parod

Mae hyn yn ymwneud â’r costau hynny lle codir tâl ar y cynllun gwariant ond lle nad oes taliadau arian parod e.e. symudiad ar gredydwyr a dyledwyr, yn ogystal â thaliadau dibrisiant ac amorteiddio.

### Gofyniad net am arian parod

Dyma’r arian y bydd angen i mi ei dynnu oddi wrth Weinidogion Cymru i gwrdd â fy nghostau disgwyliedig ar gyfer 2017-18. Mae’n cyd-fynd â’r cyllid y cytunwyd arno gan Weinidogion Cymru.

*Sophie Howe*

***Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru***